OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 37 (Cy. 4)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Ionawr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *18 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Chwefror 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 10 Chwefror 2023.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn y diffiniad o "ysgol" hepgorer ", neu ysgol arbennig nad yw awdurdod lleol yn ei chynnal".

(3) Yn rheoliad 4, yn lle paragraff (8) rhodder—

> "(8) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (2) at 380 o sesiynau i'w gymryd fel cyfeiriad at 376 o sesiynau mewn perthynas â'r flwyddyn ysgol 2022–2023."

(4) Yn lle rheoliad 5 rhodder—

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Am ystyr "regulations" gweler adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy. 119), O.S. 2008/1739 (Cy. 171), O.S. 2011/149 (Cy. 33), O.S. 2012/248 (Cy. 41), O.S. 2019/1131 (Cy. 196), O.S. 2020/848 (Cy. 187), O.S. 2021/1476 (Cy. 378) ac O.S. 2022/61 (Cy. 23).

"**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y blynyddoedd ysgol 2022–2023, 2023–2024 a 2024–2025 sydd wedi ei neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i ddarparu hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant a fynychir gan staff sy'n addysgu a staff nad ydynt yn addysgu a hyfforddiant a gynhelir ar y cyd ag ysgolion eraill) neu i baratoi a chynllunio, mewn perthynas ag un neu ragor o'r canlynol—

(a) lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol;

(b) gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**4**) ar gyfer disgyblion yn yr ysgol;

(c) y cwricwlwm sydd i'w ddarparu yn yr ysgol o dan Ran 2 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**5**).

(2) Mae paragraff (1) i gael effaith mewn perthynas â dim mwy na dwy sesiwn ysgol ym mhob blwyddyn ysgol.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae'r sesiwn honno i'w hystyried at ddibenion rheoliad 4 fel sesiwn pan gyfarfu'r ysgol."

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

16 Ionawr 2023

(**4**) 2018 dccc 2.
(**5**) 2021 dsc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y diwrnod ysgol, sydd fel arfer yn cael ei rannu yn ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol, ac i ysgolion gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "ysgol" yn rheoliad 3 o Reoliadau 2003, i adlewyrchu diwygiadau a wnaed i adran 342 o Ddeddf Addysg 1996(**6**) gan adran 57 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**7**). Bydd Rheoliadau 2003 felly yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol.

Maent yn diwygio rheoliad 4(8) o Reoliadau 2003 i leihau isafswm nifer y sesiynau ysgol y mae rhaid eu cynnal yn y flwyddyn ysgol 2022–2023 o 380 i 376. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwyliau banc ychwanegol ar 19 Medi 2022 ar gyfer Angladd Gwladol Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II, ac ar 8 Mai 2023 i nodi achlysur Coroni Ei Fawrhydi y Brenin Charles III.

Maent hefyd yn diwygio rheoliad 5 o Reoliadau 2003 i ddarparu i ddim mwy na dwy sesiwn ym mhob un o'r blynyddoedd ysgol 2022–2023, 2023–2024 a 2024–2025 gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol, os yw'r sesiynau hynny wedi eu neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i unrhyw un neu ragor o'r materion a ragnodir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Deddfwriaeth a Llywodraethiant, Yr Is-Adran Effeithiolrwydd Ysgolion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**6**) 1996 p. 56.
(**7**) 2018 dccc 2.